**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-05-02(p.2)**

**Dyddiad:** **Dydd Iau 14 Chwefror 2002**
**Lleoliad:** **Theatr Brycheiniog, Aberhonddu**

**Teitl:** **Gwasanaethau ailsefydlu a thriniaeth i gam-ddefnyddwyr sylweddau**

## Pwrpas

1. Darparu cyngor i'r Pwyllgor ar:

- faterion cyfredol mewn perthynas â gwasanaethau ailsefydlu a thriniaeth ar gyfer cam-ddefnyddwyr sylweddau yng Nghymru.

- adolygiad gwasanaeth i'w gynnal gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau.

## Crynodeb

2. Mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod rhai triniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn effeithiol. Gall triniaethau gynorthwyo pobl i leihau faint o gyffuriau neu alcohol y maent yn eu cymryd neu i lwyr ymwrthod, gwella'u hiechyd corfforol a meddyliol a lleihau ymlediad amrywiol firysau yn y gwaed megis hepatitis B ac C a HIV. Gall triniaeth hefyd leihau'r perygl o farwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a chael effaith arwyddocaol ar droseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

3. Bydd y Gyfarwyddiaeth Gymunedol yn cynnal adolygiad o gomisiynu a darparu gwasanaethau ailsefydlu a thriniaeth yng Nghymru i fynd i'r afael â phryderon ynglyn ag argaeledd gwasanaethau. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried unrhyw gamau gweithredu fydd eu hangen i fynd i'r afael â'r pryderon ynglyn ag argaeledd y gwasanaethau hyn. Dywedir wrth y Pwyllgor am y canlyniadau yn y gwanwyn 2003.

## Amseru

4. Cynhelir yr adolygiad gwasanaeth yn ystod 2002.

## Cefndir

5. Dros y misoedd diwethaf, codwyd materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig argaeledd, amrywiaeth ac ehangder gwasanaethau ailsefydlu a thriniaeth yn y Pwyllgor, mewn trafodaeth lawn yn y Cynulliad ac yn ystod trafodaethau cyfarfod cyntaf y Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau. Derbyniwyd gohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, asiantaethau darparu yn y maes a'r cyhoedd hefyd. Yn ogystal cafwyd sylw'r cyfryngau yng Nghymru.

6. Y materion allweddol yw:

- pryder cynyddol ynglyn â'r cynydd yn y camddefnydd o heroin;
- amserau aros i gael mynediad i driniaethau yn y gymuned;
- cyllid ar gyfer ailsefydlu preswyl;
- darparu triniaeth trwy wasanaethau gofal iechyd sylfaenol; a
- recriwtio a chadw personél.

7. Mae'r Strategaeth yng Nghymru ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, *Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Dull partneriaeth,* yn nodi triniaeth fel un o'i phedwar nod allweddol. Y nod yw 'Galluogi pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau i'w goresgyn a byw bywyd iach a llawn ac yn achos troseddwyr, byw bywyd di-drosedd. Mae yna amcanion cysylltiedig a thasgau allweddol.

8. Mae Cronfa Triniaeth Cyffuriau ac Alcohol y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid i wella mynediad i driniaeth a gofal i gam-ddefnyddwyr sylweddau yng Nghymru. Amcan y Gronfa, a reolir at lefel leol gan Dimau Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol, yw cynyddu argaeledd triniaeth a gofal effeithiol ac amserol i gam-ddefnyddwyr sylweddau, yn enwedig i bobl ifanc o grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r gronfa werth £2 filiwn yn 2001-2002. Erbyn 2003 mae'r Cynulliad yn bwriadu dyblu gwerth y Gronfa o'i lefel ym 1999-2000 i bron £3 miliwn.

9. Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu cyllid i sefydliadau gwirfoddol dan gynllun grant i frwydro yn erbyn camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Dan y cynllun grant hwn darperir cefnogaeth, ar ffurf cyllid craidd neu ariannu prosiect, i wasanaethau ailsefydlu a thriniaeth preswyl sy'n darparu gofal i gam-ddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol.

10. Bwriedir adolygu'r broses o gomisiynu a darparu'r gwasanaeth trwy:

- gysylltu â'r pum Tîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol cyfredol a Thimau Gweithredu Lleol i lunio proffil cynhwysfawr o wasanaethau ailsefydlu a thriniaeth yn eu hardal a lefel yr angen;
- gofyn am farn amrywiaeth o gomisiynwyr a darparwyr gwasanaeth;
- ymgynghori ag asiantaethau arweiniol sy'n gyfrifol am gomisiynu a phrynu gwasanaethau ailsefydlu preswyl ynglyn â'u gweithdrefnau comisiynu a phrynu;
- adolygu'r potensial i ddarparu cynlluniau gofal ar y cyd mewn gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol mewn ymgynghoriad â'r Gyfarwyddiaeth NHS; a
- cysylltu â'r Gyfarwyddiaeth NHS i gytuno'r ffordd y gallai'r adolygiad gynnwys darparu gwasanaethau claf mewn ysbyty ar gyfer camddefnyddio sylweddau a rheoli cleifion gyda diagnosis deublyg o gamddefnyddio sylweddau a salwch meddwl.

**Materion**

***Cynnydd yn y defnydd o heroin***

11. Fel ymhob rhan o'r DU, mae Cymru wedi gweld cynnydd yn y defnydd o heroin gydol y 1990 ac yn yr 21ain ganrif. Mae'r posibilrwydd o ddibynnu'n helaeth ar heroin yn golygu y bydd llawer o gam-ddefnyddwyr yn cysylltu rywbryd â'r gwasanaethau triniaeth. Gan fod nifer gynyddol yn gaeth i heroin, gwelwyd cynnydd yn y galw am driniaeth. Mae graddau'r galw hwn cymaint fel nad yw gwasanaethau bob amser wedi gallu ymateb yn ddigonol ac yn awr mae rhestri aros sylweddol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig am raglenni triniaeth strwythurol megis gwasanaethau rhoi presgripsiwn ar gyfer methadon.

***Mentrau newydd o fewn y system cyfiawnder troseddol***

12. Rhoddwyd mwy o bwysau ar asiantaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru o ganlyniad i fentrau'r Swyddfa Gartref i nodi cam-ddefnyddwyr sylweddau o fewn y system cyfiawnder troseddol a'u cyfeirio am driniaeth. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- Cynlluniau Atgyfeirio ar ôl Arestio (ARS) – y nod yw nodi'r rhai sy'n cael eu harestio a all fod â phroblem camddefnyddio sylweddau a'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol;

- Gorchmynion Triniaeth a Phrofion Cyffuriau (DTTO) – y nod yw darparu triniaeth o fewn dedfryd gymunedol i bobl y mae cyswllt anorfod rhwng eu camddefnydd o gyffuriau a throseddu;

- Gwasanaethau Cynghori, Asesu, Cyfeirio, Ymgynghori a Gofal Drwodd, (CARAT) – y nod yw nodi carcharorion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a'u darparu'n uniongyrchol ag amrywiaeth o wasanaethau, yn system y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau neu eu cyfeirio atynt.

***Cyllid ar gyfer triniaeth breswyl***

13. Fel y nodwyd ym mharagraff 9, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cyllid craidd i ddarparwyr ailsefydlu preswyl. Mae Awdurdodau Lleol, ar ôl asesu angen yn prynu lleoliadau mewn mannau o'r fath. Mae polisi prynu yn fater i'r awdurdod lleol unigol.

14. Mae'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau wedi gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaeth preswyl camddefnyddio sylweddau a'r Arolygaeth Safonau Gofal yng Nghymru i ddrafftio atodiad i'r Safonau Sylfaenol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion Iau.

***Gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol***

15. Gall gwasanaethau gofal sylfaenol ddarparu cyfleoedd i drin cam-ddefnyddwyr sylweddau yn effeithiol, megis trwy gynlluniau gofal ar y cyd Meddygon Teulu a brechu yn erbyn hepatitis B. Gall ymyrraeth o'r fath ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau. Bydd yr adolygiad gwasanaeth yn archwilio lefel cyfraniad gofal sylfaenol gan gynnwys swyddogaeth y fferyllfa gymunedol i atal afiechyd trwy gynlluniau cyfnewid nodwyddau a chwistrellau a goruchwylio'r defnydd

o fethadon i osgoi iddynt orlifo i'r stryd.

16. Cafwyd cyllid yn ddiweddar i gyflwyno Tystysgrif Meddygon Teulu y Coleg Brenhinol mewn Rheoli Camddefnyddio Cyffuriau mewn Gofal Sylfaenol yng Nghymru.

***Personél***

17. Mae prinder staff ledled y DU gyda'r hyfforddiant, y cymwysterau, y sgiliau a'r profiad priodol i weithio mewn gwasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau. Mynegwyd pryderon tebyg o ran anawsterau recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ledled Cymru a bu'n bwnc Grwp Gorchwyl a Gorffen arbenigol a sefydlwyd gan y Cynulliad ac a gyhoeddodd ei ganfyddiadau ym mis Medi 2001. Daeth y grwp i'r casgliad fod cyswllt anorfod rhwng materion recriwtio a chadw a'u bod yn ganlyniad ffactorau cymhleth gan gynnwys cynnydd mewn cystadleuaeth am staff a phatrymau mwy cymhleth o ddarparu gwasanaeth sy'n gofyn am weithlu mwy hyblyg a medrus.

***Gwledigrwydd***

18. Nid yw camddefnyddio sylweddau wedi'i gyfyngu i'r dinasoedd ac ardaloedd trefol mawr. Mae nifer o faterion sy'n cymhlethu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd daearyddol mawr sydd â phoblogaeth fach, gan gynnwys:

- diffyg cyfle ar gyfer darbodion graddfa;
- trafferthion i gael hyd i wasanaethau oherwydd amser teithio a phellter; a
- mwy o angen i gydweithio gyda gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol ee i ddarparu cynlluniau gofal ar y cyd Meddygon Teulu.

***Triniaeth***

19. Mae'r triniaethau a'r ymyrraeth sy'n dangos y dystiolaeth orau o fod yn effeithiol (gan gynnwys bod yn gost effeithiol), yn cynnwys:

- rhoi presgripsiwn ar gyfer methadon i'r rhai sy'n gaeth i heroin gan gynnwys ei ddarparu mewn cynlluniau gofal ar y cyd a chynlluniau defnyddio dan oruchwyliaeth mewn fferyllfeydd;
- cynlluniau cyfnewid nodwyddau a chwistrellau wedi'u gweithredu gan wasanaethau atal camddefnyddio sylweddau a thriniaeth ac o fewn fferyllfeydd cymunedol;
- cynghori strwythurol;
- ymyrraeth dros dro;
- ailsefydlu preswyl.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau uchod ar gael ledled Cymru; mae'r rhai nad ydynt ar gael yn gyffredinol yn cael eu datblygu.

**Goblygiadau Cydymffurfio/Ariannol**

20. Mae adrannau 2, 3 a 23 Deddf NHS 1977, wedi'u gweithredu mewn cysylltiad ag adrannau 40 ac 85 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn darparu'r sail statudol i frwydro yn erbyn camddefnyddio sylweddau. Mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad ac i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dirprwyol. Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb; ac nid oes dim newydd na dadleuol ynglyn â'r cynnig hwn.

**Themâu Traws-bynciol**

21. Mae themâu traws-bynciol yn cynnwys gostwng trosedd a chreu cymunedau diogelach, gwella iechyd a lles pobl Cymru a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

**Camau Gweithredu**

22. Gofynnir i Aelodau nodi er gwybodaeth.

**Jane Hutt**

**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt

Michael Jones

Swyddog Datblygu Gwasanaeth

Adran Ymyrraeth Camddefnyddio Sylweddau

Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: Caerdydd (029) 20826255 Ffacs: Caerdydd (029) 20825473

e-bost: mike.jones5@wales.gsi.gov.uk

John Lenaghan

Pennaeth Adran

Adran Ymyrraeth Camddefnyddio Sylweddau

Cyfarwyddiaeth Cymunedau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: Caerdydd (029) 20825772 Ffacs: Caerdydd (029) 20825473

e-bost: john.lenaghan@wales.gsi.gov.uk